# Ymledu gan ddefnyddio balŵn ar gyfer camweithrediad y tiwb Eustachio

18 Rhagfyr 2019

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer camweithrediad cronig y tiwb Eustachio ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Mae'r tiwb Eustachio yn cysylltu'r glust ganol â chefn y trwyn. Os yw'r tiwb wedi'i flocio, neu os nad yw'n agor yn iawn (camweithrediad), gall achosi clyw aneglur, poen, teimlad bod y glust yn llawn, neu eu bod yn atseinio neu bendro. Yn y driniaeth hon, rhoddir tiwb hyblyg tenau gyda balŵn bach drwy'r trwyn ac i mewn i'r tiwb Eustachio. Caiff endosgop (tiwb tenau gyda chamera ar y pen) ei ddefnyddio i lywio'r broses. Unwaith y bydd yn ei le, caiff y balŵn ei lenwi â dŵr sterilaidd sydd ychydig yn hallt (toddiant heli). Caiff ei adael yn ei le wedyn am tua 2 funud cyn iddo gael ei wagio a'i dynnu oddi yno. Y nod yw lledaenu'r tiwb Eustachio, gwella'r ffordd y mae'n gweithio a lleddfu symptomau.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3636-6



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.